Further Information

Tourist Information Centres

Let us help you make the most of your visit to Mid Wales.
Montgomery Tourist Information Centre: Montgomery Institute, Arthur Street, SY15 6RA • *This TIC is unmanned*
Welshpool Tourist Information Centre: Vicarage Garden Car Park, Church Street, Welshpool, SY21 7DD • *Tel:* 01938 552043 • *E-mail:* weltic@powys.gov.uk
Newtown Tourist Information Centre: The Park, Newtown, SY16 2NH
Tel: 01686 625580 • *E-mail:* newtic@powys.gov.uk

Cycle Shops

Brooks Cycles, 9 Severn Street, Welshpool. *Tel:* 01938 553582
Brooks Cycles, Unit 4, 26-27 Short Bridge Street, Newtown. *Tel:* 01686 610021

Travel Information

For detailed information about bus and rail links, and help planning your journey, contact Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk • *Tel:* 0871 200 22 33
There are railway stations at **Newtown** and **Welshpool** on the Cambrian Line, the main line route from Shrewsbury to Aberystwyth. Further information is available from www.thecambrianline.co.uk
Published by Montgomery Town Council. Cycle Routes designed by Sustrans and Powys County Council. Artwork by **MA Creative** – www.macreative.co.uk

Gwybodaeth Bellach

Canolfannau Croeso

Gadewch i ni eich helpu chi i wneud yn fawr o'ch ymweliad â Chanolbarth Cymru.
Canolfan Croeso Trefaldwyn: Institiwt Trefaldwyn, Arthur Street, SY15 6RA
Canolfan Croeso'r Trallwng: Maes Parcio Gerddi'r Ficerdy, Stryd yr Eglwys, Y Trallwng, SY21 7DD – *Rhif ffôn:* 01938 552043 *e-bost:* weltic@powys.gov.uk
Canolfan Croeso'r Drenewydd: Y Parc, Y Drenewydd, SY16 2NH.
Rhif ffôn: 01686 625580; *e-bost:* newtic@powys.gov.uk

Siopau Seiclo

Brooks Cycles, 9 Stryd Hafren, Y Trallwng. Rhif ffôn: 01938 553582
Brooks Cycles, Unit 4, 26-27 Short Bridge Street, Newtown. Rhif ffôn: 01686 610021

Gwybodaeth am deithio

Am wybodaeth fanwl am gysylltiadau bws a thrên, a help i gynllunio eich taith, cysylltwch â Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk - Rhif ffôn:0871 200 2233. Mae gorsafoedd rheilffordd yn Y Drenewydd a'r Trallwng ar Lein y Cambrian, y prif lwybr o'r Amwythig i Aberystwyth. Gwybodaeth bellach ar gael o www.thecambrianline.co.uk
Cyhoeddwyd gan Gyngor Tref Trefaldwyn. Cynlluniwyd y Teithiau Seiclo gan Sustrans a Chyngor Sir Powys. Gwaith dylunio gan **MA Creative** – www macreative co uk

Further Information

Other Cycling Publications

National Cycle Network Route 81 Map, Lôn Cambria
Available from www.sustrans.org.uk
National Cycle Network Regional Route 25, The Radnor Ring – Available from Powys Tourism Development Officer 01874 612275
Cycle Breaks Packs – 5 circular days rides for Rhayader and Knighton & Prestiegne. Available from www.cyclebreakswales.co.uk

Further Information

If you would like further information about other cycle routes in Mid Wales, or to obtain a free cycling information pack, contact: Powys County Council Cycle;
Tel: 01597 826000

Useful Websites

Sustrans: www.sustrans.org.uk
National Cyclists Organisation: www.ctc.org.uk
Powys County Council: www.powys.gov.uk
Powys Visitor Information Site: www.exploremidwales.com
Montgomery Town Website: www.montgomery-powys.co.uk

Disclaimer: Please note that, while every care has been taken by the publishers to ensure the accuracy of the information, no liability or responsibility will be accepted in any circumstances whatsoever, should anyone experience any inaccuracies, loss, damage or injury. The booklet/map should be used solely on this understanding.
Cover photo © Glyn Evans, Sustrans

Gwybodaeth Bellach

Cyhoeddiadau Seiclo Eraill

Map Llwybr 81 Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol, Lôn Cambria.
Ar gael gan www.sustrans.org.uk
Taith Ranbarthol 25, Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol, The Radnor Ring – Ar gael gan Swyddog Datblygu Twristiaeth Powys, 01874 612275
Pecynnau Gwyliau Seiclo – 5 taith diwrnod mewn cylch ar gyfer Rhaeadr Gwy, Tref-y-clawdd a Llanandras. Ar gael gan www.cyclebreakswales.co.uk

Gwybodaeth Bellach

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach am lwybrau seiclo eraill yng Nghanolbarth Cymru, neu i gael pecyn gwybodaeth am ddim am seiclo, cysylltwch â Swyddog Datblygu Seiclo, Cyngor Sir Powys. *Rhif ffôn:* 01597 826000

Gwefannau Defnyddiol

Sustrans: www.sustrans.org.uk
National Cyclists Organisation: www.ctc.org.uk
Cyngor Sir Powys : www.powys.gov.uk
Safle gwybodaeth i ymwelwyr Powys: www.exploremidwales.com
Gwefan Tref Trefaldwyn: www.montgomery-powys.co.uk

Gwadiad: Er i'r cyhoeddwyr gymryd pob gofal i sicrhau fod y wybodaeth yn gywir, ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl os bydd unrhyw un yn dod ar draws unrhyw wallau, golled, difrod neu anaf. Dylid defnyddio'r llyfryn/map hwn ar y ddealltwriaeth hynny.

Montgomery Cycle Rides
Teithiau Seiclo Maldwyn



Five cycle routes following quiet lanes around the Welsh Border
From 4 to 23 miles
Pum llwybr seiclo yn dilyn lonydd tawel ar hyd y gororau
Rhwng 4–23 o filltiroedd

About the Cycle Routes

The five cycle rides based on Montgomery will provide you with beautiful views of the dramatic countryside of the Welsh borders. The lanes are free of heavy traffic and therefore if you need to push up any hill it is easy to do so!

***Route 1* – Hendomen and Dolydd Hafren nature reserve:** This route, local to Montgomery, gives an exceptional view over the town (see the front cover) and later on of the castle. An extension allows a visit to a very interesting nature reserve next to the river Severn.

***Route 2* – Abermule:** A very attractive valley route is followed by a longish climb from Abermule. However this is rewarded by truly fantastic views as far as Cadr Idris from the flat cycle ride on the top of the hill. Don't miss this one.

***Route 3* – Pentreheyling and Churchstoke:** An easy route with only one short sharp hill. There is a water mill near Bacheldre, which produces flour, and there are two opportunities to see the impressive mound of Offa's Dyke. The lanes are beautiful and very rustic.

***Route 4* – Abermule and Bettws Cedewain:** Except for two short sharp hills between Abermule and the B4389 this route is relatively easy. The views along the way are very attractive and there are the river Severn, Montgomery canal and Dolforwyn Castle to visit. Newtown can also be visited via a traffic free disused canal and riverside path.

***Route 5* – Welshpool:** Apart from a climb past Powis castle grounds this route is relatively easy. Welshpool and Berriew offer amenities and museums. Powis castle is a fascinating National Trust property and the gardens are superb. Check opening times.

CYCLING CODE *cycle with care!*

- Always follow the Highway Code
- Be considerate to other users, and give way to pedestrians and horse riders
- Take particular care at junctions, when cycling downhill and on loose surfaces
- Ride in single file on narrow or busy roads
- Consider wearing a helmet and high visibility clothing

Yngl_n â'r Llwybrau Seiclo

Bydd y pum taith seiclo ym Maldwyn yn gyfle gwych i chi weld golygfeydd prydferth cefn gwlad dramatig y gororau. 'Does dim traffig trwm ar y lonydd, ac felly os oes rhaid gwthio'r beic i fyny unrhyw fryn, mae'n hawdd gwneud hynny!

***Taith 1* – Gwarchodfa natur Hendomen a Dolydd Hafren:** Mae'r llwybr hwn o amgylch Trefaldwyn yn rhoi golygfa hyfryd i chi dros y dref (gweler y clawr blaen) ac ar y castell wedi hynny. Mae estyniad i'r llwybr yn rhoi cyfle i chi weld gwarchodfa natur ddiddorol iawn ger afon Hafren.

***Taith 2* – Aber-miwl:** Taith hyfryd trwy ddyffryn, i'w ddilyn gan daith serth i fyny o Aber-miwl. Fodd bynnag ar ôl cyrraedd y top, fe welwch olygfeydd gwych mor bell â Chader Idris o'r llwybr gwastad ar frig y bryn. Peidiwch â cholli hwn.

***Taith 3* – Pentreheyling a'r Ystog:** Llwybr hawdd gyda dim ond un bryn serth. Mae melin ddŵr ger Bacheldre sy'n cynhyrchu blawd, a dau gyfle i weld twmpath trawiadol Clawdd Offa. Mae'r lonydd yn brydferth ac yn wledig iawn.

***Taith 4* – Aber-miwl a Betws Cedewain:** Heblaw am ddau fryn byr serth rhwng Aber-miwl a'r B4389, mae'r llwybr hwn yn weddol hawdd. Ceir golygfeydd hyfryd ar hyd y llwybr hwn, a chyfle i ymweld ag Afon Hafren, Camlas Trefaldwyn a Chastell Dolforwyn. Gallwch hefyd fynd i'r Drenewydd ar hyd llwybr segur, di-draffig ger y gamlas a'r afon.

***Taith 5* – Y Trallwng:** Ar wahân i orfod dringo heibio i diroedd Castell Powys, mae'r llwybr hwn yn weddol hawdd. Ceir amwynderau ac amgueddfeydd yn Y Trallwng ac Aberriw. Mae Castell Powys yn adeilad swynol sy'n perthyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae'n werth gweld y gerddi. Cadarnhewch yr oriau agor cyn mynd yno.

Y COD SEICLO cymerwch ofal wrth seiclo!

- Dilynwch reolau'r Ffordd Fawr bob amser.
- Ystyriwch ddefnyddwyr eraill, ac ildio i gerddwyr a marchogion.
- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth gyffyrdd, wrth seiclo i lawr rhiw ac ar arwynebau rhydd.
- Seiclwch un ar ôl y llall ar ffyrdd prysur neu gul.
- Dylech wisgo helmed a dillad sy'n hawdd i'w gweld

Montgomery

Montgomery is a busy little town with an active community spirit and a diverse economy. The traditional agricultural base of the town still exists, but livestock is now sent to the huge smithfield market in Welshpool (about 7 miles away). There are more than a dozen shops and visitors to the town are an important source of income. There are five pubs, most of which serve food. Cycle parking is available in Broad Street.

Trefaldwyn

Tref fach brysur yw Trefaldwyn gyda naws gymunedol weithgar ac economi amrywiol. Mae sylfaen amaethyddol draddodiadol y dref yn dal i fodoli, ond bellach bydd da byw'n cael eu gwerthu ym marchnad enfawr Smithfield yn Y Trallwng (tua 7 milltir i ffwrdd). Mae tua dwsin o siopau yma, ac mae ymwelwyr i'r dref yn ffynhonnell incwm pwysig iawn. Mae pum tafarn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig bwyd. Mae lle i barcio beiciau yn Broad Street.



Key to maps / Allwedd i'r mapiau

- Cycle Route 1 / *Llwybr seiclo 1*
- Cycle Route 2 / *Llwybr seiclo 1*
- Cycle Route 3 / *Llwybr seiclo 3*
- Cycle Route 4 / *Llwybr seiclo 3*
- Cycle Route 5 / *Llwybr seiclo 5*
- Short Cut/ *Llwybr byrrach*
- National Cycle Route 81 / *Llwybr Seiclo Cenedlaethol 81*

- Café / *Caffi*
- Pub/Inn / *Tafarn*
- Shops / *Siopau*
- Castle / *Castell*
- Tourist Information / *Canolfan Croeso*
- Church / *Eglwys*
- Post Office / *Swyddfa Bost*
- Caravan/Camping Site / *Safle Carafannau / Gwersylla*
- Nature Reserve / *Gwarchodfa Natur*
- Picnic Area / *Lle Picnic*
- Car Park / *Maes parcio*
- Youth Hostel / *Hostel Ieuenctid*
- Toilets / *Toiledau*
- Cycle Shop / *Siop Seiclo*
- TAKE CARE / *CYMERWCH OFAL*

Route 1 – Hendomen & Dolydd Hafren Nature Reserve

Total distance: **4 miles** (13 km) +2.6 miles extension

1. *0 miles* Starting from the square in front of the Town Hall take Kerry Street that goes off to the left of the Town Hall. Follow the road as it goes round to the right and up a hill to give a spectacular view over Montgomery – you may have to walk this section, but it is worth it!

***Montgomery Castle** is a masonry castle standing on a rocky promontory above the town of Montgomery, precipitous slopes to the north and east make this an excellent defensive site. The castle was built by Henry III to counter the growing power of Llywelyn ap Gruffudd in this area of the Marches. It was probably originally built in timber in 1223 and then almost immediately rebuilt in stone and completed by 1234.*

2. *1.4 miles* Drop down two hills and pass a brown brick water pumping station on your right. Just before dropping down the next hill turn right into a small lane at 2 on the map.
3. *2.5 miles* At the end of the lane go straight over at a staggered junction into a lane signposted Hendomen. Take care as visibility to the left is restricted and traffic can be fast. Carry on to the "hamlet centre" with a telephone box on left.
4. *2.8 miles* Just on from the telephone box take a very small lane on the right which slopes steeply down to the side of a house. Carry on pass farms and a small sewerage plant.
5. *3.4 miles* Carefully cross the junction onto New Road. Good view of castle across to the right.
6. *3.7 miles* At lane end turn right. Take care, as visibility to the left is restricted. Carry on up hill into Montgomery.
7. *4.0 miles* At junction in front of old Sunday school, cross Pool Road and go straight on up Arthur Street to the Town Hall.

EXTENSION OF ROUTE TO NATURE RESERVE

2.8 miles At 4 turn left down the small lane at the side of the telephone box. Drop down the lane to a level crossing. Only cross when the lights are green and ensure all the gates are left closed.

8. *3.3 miles* At the lane end turn right onto a wider road opposite Rhydwhyman ford. Follow road towards a white farmhouse on a ridge.

***Rhydwhyman Ford**: Rhydwhyman (meaning "swift ford") has existed since the 13th Century and was an important river crossing up until the 19th Century.*

9. *4.1 miles* At the large white farmhouse turn left (do not follow the road as it turns sharply to the right) and go straight on down a lane which deteriorates slightly as it drops down the ridge. Follow lane for about $^2/_3$ mile to the nature reserve car park and display board.

***Dolydd Hafren Nature Reserve:** This reserve is situated by the river Severn and the marshes attract a whole host of different birds. There are two hides and the farthest one from the car park has a lovely view of the river. The 'sightings' log in there is fascinating and gives you a challenge to match the number of varieties seen!*

Taith 1 – Gwarchodfa Natur Hendomen a Dolydd Hafren

Cyfanswm y pellter: **8 milltir** (13 km) + 2.6 milltir

1. *0 milltir.* Yn dechrau o'r sgwâr tu blaen i Neuadd y Dref, ewch ar hyd Kerry Street i'r chwith o Neuadd y Dref. Dilynwch y ffordd wrth iddi droelli i'r dde ac i fyny'r bryn i roi golygfa fendigedig i chi dros Drefaldwyn. Efallai y bydd rhaid i chi gerdded ychydig fan hyn, ond mae'n werth yr ymdrech!



***Castell Trefaldwyn** – Castell o waith maen yw hwn sy'n sefyll ar bentir caregog uwchben tref Trefaldwyn. Mae'n safle amddiffynnol gwych oherwydd y bryniau serth i'r gogledd a'r dwyrain. Adeiladwyd y castell gan Henry III i geisio llethu pŵer cynyddol Llywelyn ap Gruffudd yn y rhan hon o'r Gororau. Mae'n debyg mai adeilad o bren oedd hwn yn wreiddiol ac iddo gael ei ailadeiladu'n llwyr o garreg a'i orffen erbyn 1234.*

2. *1.4 milltir.* Ewch i lawr dau fryn a mynd heibio i orsaf bwmpio dŵr o frics brown ar y dde. Yn union cyn disgyn y bryn nesaf, trowch i'r dde i fynd ar lôn fechan (rhif 2 ar y map)
3. *2.5 milltir.* Ar ben draw'r lôn, ewch yn syth dros gyffordd groesgam ac ar lôn sydd ag arwyddbost Hendomen. Cymerwch ofal gan nad yw'n hawdd gweld i'r chwith a gall y traffig fod yn gyflym. Ewch yn eich blaen i ganol y pentrefan gyda'r ciosg ffôn ar y chwith.
4. *2.8 milltir.* Yn union wedi'r ciosg ffôn, dilynwch y lôn fechan iawn ar y dde sy'n disgyn yn serth wrth ochr tŷ. Ewch heibio i ffermydd a gwaith trin carthffosiaeth.
5. *3.4 milltir.* Croeswch y gyffordd yn ofalus i New Road. Bydd golygfa dda o'r castell ar y dde.
6. *3.7 milltir.* Ar ben draw'r lôn, trwch i'r dde. Cymerwch ofal gan ei bod yn anodd gweld i'r chwith. Ewch yn eich blaen i fyny'r bryn i Drefaldwyn.
7. *4.0 milltir.* Wrth y gyffordd tu blaen i'r hen ysgol Sul, croeswch Pool Road a mynd yn syth i fyny Arthur Street i Neuadd y Dref.

ESTYNIAD I'R LLWYBR I'R WARCHODFA NATUR

2.8 milltir. Wrth rif 4, trowch i'r chwith i lawr y lôn fechan wrth ochr y ciosg ffôn. Ewch lawr y lôn i'r groesfan wastad. Croeswch pan fydd y goleuadau'n wyrdd a sicrhewch fod y gatiau ar gau.

8. *3.3 milltir.* Ar ben draw'r lôn, trowch i'r dde i ffordd lydan gyferbyn â rhyd Rhydwhyman. Dilynwch y ffordd tan i chi gyrraedd ffermdy gwyn ar gribyn.

***Rhyd Rhydwhyman:** Mae Rhydwhyman wedi bod mewn bodolaeth ers y drydedd ganrif ar ddeg, ac roedd yn fan croesi pwysig tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg.*

9. *4.1 milltir.* Wrth y ffermdy gwyn, trowch i'r chwith (peidiwch â dilyn y ffordd gan ei bod yn troi ar unwaith i'r dde). Ewch yn syth i lawr lôn sy'n dirywio ychydig wrth iddi ddisgyn i lawr y cribyn. Dilynwch y lôn am ryw 2/3 milltir i faes parcio a hysbysfwrdd y warchodfa natur.

***Gwarchodfa Natur Dolydd Hafren:** Mae'r warchodfa hon ger Afon Hafren ac mae'r corsydd yn denu llwyth o wahanol adar. Mae dau le cuddio yma, ac mae gan yr un pellaf o'r maes parcio olygfeydd hyfryd o'r afon. Mae'r cofnod sydd yno o'r hyn a welwyd yn hynod ddiddorol, ac yn her i chi allu gweld yr un faint o wahanol adar*

Route 2 – Abermule

Total distance: **11.1 miles** (18 km)



1. *0 miles* Follow **Route 1** directions to point 2
2. *1.4 miles* Go straight on down the hill instead of turning right. You will see the village of Llandyssil in the valley bottom.
3. *1.9 miles* At the crossroads by the white converted chapel go left if you want to visit the village of Llandyssil or follow the short cut. Otherwise go straight on.

   If just visiting the village - turn right at the pub and then follow the road to rejoin the main route at the next crossroads where you turn left.

   If following the short cut - turn left at the pub and then follow the lane uphill for about a mile until you reach a crossroads opposite a white house. Rejoin the main route here by turning left at point 9.
4. *2.2 miles* Go straight on at these crossroads if you bypassed the village. Follow the road along the valley.
5. *4.0 miles* At the lane end turn left onto a wider road. Soon cross over a railway.
6. *4.2 miles* Go straight ahead at the roundabout and along Abermule "main street" and pass a small shop on your left and a pub on the right.

River Severn *flows for 200 miles (350km) from high up on the hillsides of the Cambrian Mountains above Llanidloes to the Bristol Channel making it the longest river in Britain.*

7. *4.5 miles* Turn left onto the B4368 (Clun road) very soon after the shop.
8. *4.6 miles* Cross the railway line and immediately turn left into a road sign-posted Cefn y Coed. Follow this road as it climbs through houses and then into beautiful countryside. Stay on this road ignoring all lanes off to left and right until you reach a crossroads by a white house (the short cut rejoins the route here)
9. *7.0 miles* Continue straight over the crossroads to the top of the hill where there are superb views.
10. *7.6 miles* Very soon after the top of the hill the road splits at a grass triangle with the left hand road sign-posted to Montgomery. Take this road and enjoy absolutely glorious views on left and right from this ridge road. Ignore all smaller lanes and ultimately the road will drop down past a telephone box on your left.
11. *9.9 miles* At the junction at the bottom of the hill turn left and follow road back into Montgomery.

Taith 2 – Aber-miwl

Cyfanswm: **11.1 milltir** (18 cilomedr)

1. *0 milltir.* Dilynwch gyfarwyddiadau Taith 1 tan i chi gyrraedd pwynt 2.
2. *1.4 milltir.* Ewch yn syth i lawr y bryn yn lle troi i'r dde. Fe welwch bentref Llandysul ar waelod y dyffryn.
3. *1.9 milltir.* Wrth y groesffordd ger yr hen gapel gwyn, ewch i'r chwith os hoffech ymweld â phentref Llandysul neu i ddilyn y llwybr byrrach. Fel arall, ewch yn syth ymlaen.

Os ydych am ymweld â'r pentref – trowch i'r dde wrth y dafarn ac yna dilyn y ffordd i ailymuno â'r ffordd fawr wrth y groesffordd nesaf, lle byddwch yn troi i'r chwith.

Os ydych am fynd ar y llwybr byrrach – trowch i'r chwith wrth y dafarn ac yna dilyn y lôn i fyny'r bryn am ryw filltir tan i chi gyrraedd croesffordd gyferbyn â thŷ gwyn. Trowch i'r chwith wrth bwynt 9 i ailymuno â'r brif ffordd.

4. *2.2 milltir.* Ewch yn syth ymlaen wrth y groesffordd yma os nad aethoch i'r pentref. Dilynwch y ffordd ar hyd y dyffryn.
5. *4.0 milltir.* Ar ben draw'r lôn, trowch i'r chwith i ffordd fwy llydan. Yn fuan byddwch yn croesi rheilffordd.
6. *4.2 milltir.* Ewch yn syth ymlaen wrth y gylchfan ac ar hyd prif stryd Aber-miwl a phasio siop fechan ar y chwith a thafarn ar y dde.

Mae Afon Hafren *yn llifo am 200 milltir (350 cilomedr) o fryniau uchel Mynyddoedd y Cambria uwchben Llanidloes i Fôr Hafren sy'n golygu mai hon yw'r afon hiraf ym Mhrydain.*

7. *4.5 milltir.* Trowch i'r chwith ar y B4369 (ffordd Clun) yn fuan ar ôl pasio'r siop.
8. *4.6 milltir.* Croeswch y rheilffordd a throi i'r chwith yn syth i ffordd gydag arwydd Cefn y Coed. Dilynwch y ffordd hon wrth iddi ddringo trwy dai ac yna trwy gefn gwlad godidog. Arhoswch ar y ffordd hon gan anwybyddu pob lôn sy'n crwydro tua'r chwith a'r dde, tan i chi gyrraedd croesffordd ger tŷ gwyn (mae'r llwybr byrrach yn ailymuno â'r brif ffordd yma).
9. *7.0 milltir.* Ewch yn syth dros y groesffordd i gopa'r bryn lle welwch olygfeydd bendigedig.
10. *7.6 milltir.* Yn fuan ar ôl cyrraedd copa'r bryn, mae'r ffordd yn rhannu wrth driongl o borfa gyda'r arwyddbost ar y chwith yn eich tywys i Drefaldwyn. Dilynwch y ffordd hon a mwynhau golygfeydd gwych i'r dde ac i'r chwith. Anwybyddwch unrhyw lonydd bychain ac yn y pen draw, bydd y ffordd yn disgyn heibio i giosg ffôn ar eich chwith.
11. *9.9 milltir.* Wrth y gyffordd ar waelod y bryn, trowch i'r chwith a dilyn y ffordd nôl i Drefaldwyn.

Route 3 – Pentreheyling & Church Stoke

Total distance: **12.4 miles** (20 km)



1 *0 miles* Starting from the square in front of the Town Hall go to the Main Street away from the Town Hall and below the Church. Turn right into Bishops Castle Street and follow this road (B 4385) for approximately 2.5 miles. This road can carry bursts of traffic at times.

Whitegate Pool: *Wildlife and picnic site*

2 *2.7 miles* At the crossroads with the A489 go straight ahead still on the B4385. Go over the stream bridge and with the Gatehouse in front of you turn right into a small lane towards Bacheldre.

3 *3.5 miles* Go straight on at first junction and left soon after. Follow lane bearing left at next two junctions and start to climb as you pass Pentrenant Hall on your left.

4 *5.1 miles* As you climb into the wood on your left ignore the steep lane to your right.

5 *5.3 miles* At the gate go straight on onto a slightly deteriorated lane ensuring the gate is securely closed. Enjoy the views to the left.

6 *5.4 miles* At the next gate go straight on, firmly closing the gate (this section can become muddy!). Pass Little Argoed farm on your left and drop gradually downhill ignoring a lane on your right.

7 *6.4 miles* Pass old school buildings that have been converted into workshops and turn left at the junction. Follow the road to the end.

8 *6.9 miles* At the B4385 and Court House junction turn right and almost immediately left into a very small lane. Follow attractive lane to Churchstoke but take care as the way is narrow with bends.

9 *8.2 miles* Pass the church and Court House Hotel on your left and then turn left onto the A489. Cross the bridge and bear left ignoring the right turn to Welshpool. Carry on for about 100 yards.

10 *8.4 miles* Turn right into Coed Lane and follow for about a mile.

11 *9.3 miles* Turn left into lane signposted Montgomery.

12 *9.8 miles* Turn right at this unsigned junction (left leads to a farm but it is a tarmac lane of the same quality and does cause confusion).

13 *10.2 miles* Follow lane round to the left ignoring tarmac lane to right that leads to a farm. Carry on lane to end.

Offa's Dyke: *A defensive earthwork dyke built along the English-Welsh border of which there are remains from the mouth of the River Dee to the River Severn, built about AD 785 by King Offa of Mercia, it represents the boundary secured by his wars with Wales.*

The dyke covered a distance of 149 miles (240 km) , of which 81 miles (130 km) are still standing. It consists of a large rampart and ditch with the ditch usually on the Welsh side. It was laid out to take advantage of natural physical features.

14 *11.3 miles* At unsigned junction with B4385, opposite a post box, turn right back to Montgomery. Take care as visibility is restricted to the right.

Taith 3 – Pentreheyling a'r Ystog

Cyfanswm: **12.4 milltir** (20 cilomedr)

1 *0 milltir.* Yn dechrau o'r sgwâr tu blaen i Neuadd y Dref, ewch i'r brif stryd i ffwrdd o Neuadd y Dref ac o dan yr Eglwys. Trowch i'r dde i Bishops Castle Street a dilyn y ffordd (B4385) am tua 2.5 milltir. Gwelir tipyn o draffig ar y ffordd hon ar adegau.

Pwll Whitegate: *Lle picnic a bywyd gwyllt.*

2 *2.7 milltir.* Wrth y groesffordd â'r A489 ewch yn syth ymlaen ar y B4385. Ewch dros bont y nant a gyda'r porthdy tu blaen i chi, trowch i'r dde i fynd ar lôn fechan tua Bacheldre.

3 *3.5 milltir.* Ewch yn syth ymlaen wrth y gyffordd gyntaf ac i'r chwith yn fuan wedi hynny. Dilynwch y lôn sy'n mynd tua'r chwith wrth y ddwy gyffordd nesaf a dechrau dringo wrth i chi basio Neuadd Pentrenant ar eich chwith.

4 *5.1 milltir.* Wrth i chi ddringo i'r goedwig ar eich chwith, anwybyddwch y lôn serth sydd ar y dde.

5 *5.3 milltir.* Wrth y giât, ewch yn syth ymlaen i lôn syth wedi dirywio ychydig, gan sicrhau eich bod yn cau'r giât ar eich holau. Mwynhewch y golygfeydd sydd ar y chwith.

6 *5.4 milltir.* Wrth y giat nesaf, ewch yn syth ymlaen gan gau'r giat. (gall y rhan hon fod yn fwdlyd!). Ewch heibio i Fferm Little Argoed ar eich chwith a mynd yn raddol i lawr y bryn gan anwybyddu lôn ar y dde.

7 *6.4 milltir.* Ewch heibio i hen adeiladau ysgol sydd wedi'u trawsnewid yn weithdai, gan droi i'r chwith wrth y gyffordd. Dilynwch y ffordd i'r pen.

8 *6.9 milltir.* Wrth gyffordd y B4385 a Court House, trowch i'r dde, ac yna i'r chwith bron ar unwaith i lôn fechan iawn. Dilynwch y lôn ddeniadol hon tua'r Ystog, gan gymryd gofal gan fod y ffordd yn gul a throellog.

9 *8.2 milltir.* Ewch heibio'r eglwys a Gwesty'r Court House ar eich chwith ac yna troi i'r chwith ar yr A489. Croeswch y bont a mynd tua'r chwith gan anwybyddu'r troad i'r dde tua'r Trallwng. Ewch ymlaen am ryw 100 llath.

10 *8.4 milltir.* Trowch i'r dde i Coed Lane a dilyn y lôn am ryw filltir. Mae cyffordd-T ger y Banc y Nat West.

11 *9.3 milltir.* Trowch i'r chwith i lôn sy'n mynd tua Threfaldwyn.

12 *9.8 milltir.* Trowch i'r dde wrth y gyffordd sydd heb arwydd (mae'r ffordd i'r chwith yn arwain i fferm, ond mae'n lôn darmac o'r un ansawdd ac yn gallu achosi penbleth.

13 *10.2 milltir.* Dilynwch y lôn i'r chwith gan anwybyddu'r lôn darmac i'r dde sy'n arwain i fferm. Ewch ar hyd y lôn hon i'r pen.

Clawdd Offa: *Gwrthglawdd amddiffynnol a adeiladwyd ar hyd ffin Cymru a Lloegr tua 785 CC gan y Brenin Offa o Fersia. Gwelir gweddillion y clawdd o aber Afon Dyfrdwy i Afon Hafren, ac mae'n cynrychioli'r ffin a sicrhawyd yn dilyn y rhyfeloedd â Chymru.*

Mae'r clawdd yn ymestyn am bellter o 240 cilomedr / 149 milltir, ac mae 130 cilomedr / 83 milltir ohono'n dal i fodoli. Mae'n cynnwys rhagfur mawr a ffos, gyda'r ffos fel arfer ar ochr Cymru. Fe'i gynlluniwyd i fanteisio ar nodweddion ffisegol naturiol.

14 *11.3 milltir.* Wrth y gyffordd â'r B4385 sydd heb arwydd, gyferbyn â blwch postio, trowch i'r dde i fynd nôl i Drefaldwyn. Cymerwch ofal gan ei bod yn anodd gweld i'r dde.

Route 4 – Abermule & Bettws Cedewain

Total distance: **19.5 miles** (31.4 km)



1. *0 miles* Follow **Route 2** directions to point 6 where you turn right at the roundabout and cross the River Severn to the main road (A483).

7. *4.4 miles* Turn right onto the main road for 100 yards and turn left into a lane signposted to Dolforwen Castle. Follow lane around to the left.

8. *4.7 miles* In 100 yards turn left at the CADW sign. Pass a black and white cottage on your right and continue up a hill. At the top of the hill pass a small car park for the castle on your left. The castle is hidden on top of the hill to your right. Follow the lane as it bears to your right and then to your left as it then climbs a steep but short hill.

Dolforwyn Castle: *Founded in 1272 by Llywelyn ap Gruffydd to protect his lands from attacks by Roger Mortimor of Wigmore. It was besieged and taken by by Roger Mortimer in 1277. Occupied by the Mortimers until 1398 it was abandoned and left in ruins*

9. *6.0 miles* Ignore the right turn immediately after the farm and drop down past further farms to the B4389.

   If you want to visit Newtown – turn right and then left and follow NCN Route 81 signs along the road and then left at Llanllwchaiarn Church and then soon right to pick up the cycleway along the old canal bed and then the riverside path right into the centre of Newtown. This worthwhile detour is about 2.5 miles each way.

Newtown: *Founded in 1277, Newtown has held a market on a Tuesday to this day. Newtown grew in prosperity in the first half of the 17th Century producing Flannel which continued in to the early 20th Century.*

10. *6.8 miles* Turn right along the B4389 and follow the NCN Route 81 signs to Bettws Cedewain.

11. *9.2 miles* At the junction in the village turn right in front of the pub. Follow Route 81 signs and as you drop down a hill ignore a turn to the left signposted to Brooks.

12. *14.4 miles* About ½ mile after the bottom of the hill turn right into a lane dropping away to the right. This is just before a Route 81 sign. You are now leaving Route 81. Follow the attractive lane until you reach the A483.

13. *16.0 miles* Taking care cross over the main road aiming slightly to your left and follow the small lane. You will soon cross over a canal.

14. *16.5 miles* At the end of the lane turn right onto the B4385 which soon crosses the River Severn at a traffic light controlled bridge.

15. *17.0 miles* Turn left just before the railway bridge and pass through Caerhowel village. Go just past the end of the village until a very small lane appears on your right.

16. *17.6 miles* Turn right into the lane taking care as visibility is restricted. Go up the lane to the level crossing and cross only when the lights are green. Ensure the gates are closed behind you.

17. *18.1 miles* At Hendomen go straight on at the telephone box dropping down a very narrow lane with a house on the right. Carry on the lane past farms and a small sewerage plant

18. Follow instructions 5, 6 and 7 of **Route 1** back to Montgomery.

Taith 4 – Aber-miwl a Betws Cedewain

Cyfanswm: **19.5 milltir** (31.4 cilomedr)

1. *0 milltir.* Dilynwch gyfarwyddiadau **Taith 2** i bwynt 6. Yno, trowch i'r dde wrth y gylchfan a chroesi Afon Hafren i'r ffordd fawr (A483).

7. *4.4. milltir.* Trowch i'r dde i'r ffordd fawr am 100 llath a throi i'r chwith i lôn sy'n arwain i Gastell Dolforwyn. Dilynwch y lôn i'r chwith.

8. *4.7 milltir.* Ymhen 100 llath trowch i'r chwith wrth arwydd CADW. Ewch heibio i fwthyn du a gwyn ar y dde a pharhau i fyny'r bryn. Ar gopa'r bryn, ewch heibio i faes parcio bach ar gyfer y castell ar eich chwith. Mae'r castell wedi'i guddio ar gopa'r bryn ar y dde. Dilynwch y lôn wrth iddi fynd tua'r dde ac yna tua'r chwith ac yna dringo bryn serth ond byr.

Castell Dolforwyn: *Sefydlwyd yn 1272 gan Llywelyn ap Gruffydd i warchod ei dir rhag Roger Mortimer o Wigmore. Cipiwyd y castell gan Roger Mortimer yn 1277, ac fe'i meddiannwyd gan y Mortimers tan 1393 cyn ei adael yn wag ac mewn adfeilion.*

9 *6.0 milltir.* Anwybyddwch y troad i'r dde yn syth ar ôl y fferm a disgyn heibio i ffermydd eraill i'r B4389.

Os ydych am fynd i'r Drenewydd – trowch i'r dde ac yna i'r chwith a dilyn arwyddion Llwybr 81 yr NCN ar hyd y ffordd ac yna i'r chwith yn Eglwys Llanllwchaearn. Yna tua'r dde yn fuan i ymuno â'r llwybr seiclo ar hyd hen wely'r gamlas, ac yna'r llwybr glan afon i mewn i ganol Y Drenewydd. Mae'r daith hon sy'n werth ei gwneud, yn ddwy filltir a hanner bob ffordd.

Y Drenewydd: *Sefydlwyd y dref hon yn 1277, a chynhelir marchnad ar ddydd Mawrth hyd heddiw. Ffynnodd Y Drenewydd yn ystod hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg trwy gynhyrchu gwlanen. Parhaodd hyn tan ddechrau'r ugeinfed ganrif.*

10 *6.8 milltir.* Trowch i'r dde ar hyd y B4389 a dilyn arwyddion Llwybr 81 yr NCN i Fetws Cedewain.

11 *9.2 milltir.* Wrth y gyffordd yn y pentref, trowch i'r dde o flaen y dafarn. Dilynwch arwyddion Llwybr 81 ac wrth i chi ddisgyn i lawr y bryn, anwybyddwch y troad i'r chwith gydag arwyddbost i Brooks.

12 *14.4 milltir.* Tua ½ milltir ar ôl gwaelod y bryn, trowch i'r dde i lôn sy'n syrthio i ffwrdd i'r dde. Mae hyn ychydig cyn arwydd Llwybr 81. Rydych chi nawr yn gadael Llwybr 81. Dilynwch y lôn ddeniadol tan i chi gyrraedd yr A483.

13 *16.0 milltir.* Gan fod yn ofalus, croeswch y ffordd fawr gan wyro ychydig i'r chwith a dilyn y lôn fechan. Yn fuan, byddwch yn croesi'r gamlas.

14 *16.5 milltir.* Ar ddiwedd y lôn, trowch i'r dde i'r B4385 sy'n croesi Afon Hafren yn fuan wrth bont sy'n cael ei rheoli gan oleuadau traffig.

15 *17.0 milltir.* Trowch i'r chwith ychydig cyn y bont reilffordd a mynd trwy bentref Caerhowel. Ewch ychydig heibio i ben draw'r pentref tan i chi weld lôn fechan iawn ar y dde.

16 *17.6 milltir.* Trowch i'r dde i'r lôn gan fod yn ofalus gan nad yw'n hawdd gweld. Ewch i fyny'r lôn i'r groesfan wastad a chroesi pan fydd y goleuadau'n wyrdd. Gwnewch yn siŵr fod y gatiau ar gau tu ôl i chi.

17 *18.1 milltir.* Yn Hendomen, ewch yn syth ymlaen wrth y ciosg ffôn gan ddisgyn i lawr lôn gul iawn gyda thy ar y dde. Ewch ymlaen ar y lôn hon heibio i ffermydd a gwaith trin carthion.

18 Dilynwch gyfarwyddiadau 5, 6, a 7 **Taith 1** nôl i Drefaldwyn.

17 *15.5 miles* Bear left at the bottom of the hill as you enter Berriew still following Route 81 signs.

18 *15.7 miles* Follow Route 81 signs turning right twice in the village and then over a bridge over a very attractive river.

Berriew Aqueduct: *Carries the Montgomery canal founded in 1795 to import coal and limestone and export timber, grain and dairy produce*

19 *15.8 miles* Follow Route 81 signs straight on and up a hill.

20 *17.6 miles* On the flat you will come to a Route 81 confirmation sign on your left. Just past this sign turn sharp left and drop down into a small attractive lane. You are leaving Route 81. Follow the lane until it meets the main road.

21 You now follow **Route 4** Instructions from item 13 to take you back to Montgomery.

Taith 5 – Y Trallwng

Cyfanswm: **22.6 milltir** (36.4 cilomedr)

1 *0 milltir.* Yn dechrau o'r sgwâr tu blaen i Neuadd y Dref, trowch i'r dde i lawr Stryd Arthur wrth ochr Neuadd y Dref.

2 *0.2 milltir.* Croeswch y ffordd fawr gan barhau tan i chi gyrraedd diwedd y tai.

3 *0.5 milltir.* Trowch i'r chwith i New Road ar ddiwedd y tai.

4 *0.8 milltir.* Wrth y groesffordd, ewch yn syth ar draws a heibio i waith trin carthffosiaeth bychan, ac yna ffermydd cyn dringo i fyny i bentrefan Hendomen.

5 *1.4 milltir.* Ewch yn syth ar draws y ffordd gan fynd heibio i giosg ffôn ar y dde a disgyn i lawr lôn gul i groesfan wastad. Croeswch os yw'r goleuadau'n wyrdd a gwnewch yn siŵr eich bod yn cau'r gatiau ar eich holau.

6 *1.9 milltir.* Ar ben draw'r lôn, trowch i'r dde gyferbyn â nant Rhydwhyman. Dilynwch y ffordd o amgylch tan i chi ddod at ffermdy mawr gwyn yn sefyll ar gribyn. Dilynwch y ffordd wrth iddi droi i'r dde wrth y ffermdy.

Castell Powys: *Castell trawiadol yn llawn lluniau a dodrefn cain, ynghyd â chasgliad o drysorau o India yn Amgueddfa Clive. Mae'r gerddi'n wych gyda therasau, cloddiau ywen anferth ac orendy prydferth. Dylech ofyn am amserau agor cyn dechrau'ch taith.*

7 *3.3 milltir.* Anwybyddwch y troad i'r dde ychydig cyn yr hen wyrcws anferth. Ewch ymlaen dros y rheilffordd a heibio'r dafarn ac i fyny i bentref Ffordun.

8 *4.5 milltir.* Trowch i'r chwith i'r B4388 sy'n gallu bod yn brysur ar adegau.

9 *5.4 milltir.* Ar ddechrau'r ardal adeiledig gyferbyn â'r Cock Hotel, trowch i'r dde oddi ar y ffordd fawr. Cymerwch ofal yma gan fod y traffig yn teithio'n gyflym. Dilynwch y B4388 am ryw ddwy filltir i lawr y bryn i Fferm Lower Leighton.

10 *8.3 milltir.* Trowch i'r chwith wrth y fferm i'r Trallwng (B4381) a chroesi Afon Hafren, gan ymuno â Llwybr 81 yr NCN.

11 *9.2 milltir.* Wrth i chi ddod i mewn i'r Trallwng, trowch i'r chwith wrth gylchfan ac yna dros y rheilffordd a'r ffordd osgoi.

12 *9.4 milltir.* Trowch i'r chwith wrth y gylchfan a dilyn Severn Street i bont dros y gamlas. Os ydych chi am fynd i'r Trallwng, mae canol y dref yn syth ymlaen.

Y Trallwng: *Mae'n debyg y sefydlwyd y dref ar ddechrau'r 1240au a'i henwi'n Y Trallwng yn 1530. Mae'r Trallwng wedi tyfu fel tref farchnad, a'r fasnach wlân oedd hanfod economi'r dref ers y canoloesoedd.*

13 *9.6 milltir.* Ar ben pellaf y bont a ger arwydd mawr glas Llwybr 81 yr NCN, trowch i'r chwith a mynd heibio'r amgueddfa ar y chwith. Dilynwch y gamlas a mynd trwy faes parcio'r archfarchnad.

14 *9.7 milltir.* Ym mhen pellaf y maes parcio, trowch i'r chwith wrth y goleuadau traffig gan ddilyn arwyddion Llwybr 81. Dilynwch yr A458 am ½ milltir cyn troi i'r dde lle welwch arwyddion Llwybr 81 a Chastell Powis.

15 *10.4 milltir.* Dringwch y bryn heibio i dir Castell Powis a dilyn y lôn brydferth am ryw 3.5 milltir gan anwybyddu lonydd bychain ar y chwith a'r dde. Rydych chi nawr ar Lwybr 81.

16 *14.1 milltir.* Ar ddiwedd y lôn, trowch i'r chwith megis arwyddion Llwybr 81 a dilyn y B4385 i lawr i Aberriw.

17 *15.5 milltir.* Dilynwch y ffordd i'r chwith ar waelod y bryn wrth i chi gyrraedd Aberriw, gan ddal i ddilyn arwyddion Llwybr 81.

18 *15.7 milltir.* Dilynwch arwyddion Llwybr 81 gan droi i'r dde ddwywaith yn y pentref ac yna dros bont dros afon hyfryd iawn.

Traphont ddŵr Aberriw: *sy'n cario camlas Maldwyn a chrëwyd yn 1795 i fewnforio glo a chalchfaen, ac allforio pren, grawn a chynnyrch llaeth.*

19 *15.8 milltir.* Dilynwch arwyddion Llwybr 81 yn syth ymlaen ac i fyny bryn.

20 *17.6 milltir.* Ar y ffordd wastad, fe welwch arwydd gadarnhau Llwybr 81 ar y chwith. Yn union wedi'r arwydd hwn, trowch yn union i'r chwith a mynd lawr lôn fechan, ddeniadol. Rydych chi nawr yn gadael Llwybr 81. Dilynwch y lôn tan iddi ddod i'r ffordd fawr.

21 Nawr, dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer **Taith 4** o eitem 13 i fynd â chi nôl i Drefaldwyn.

Route 5 – Welshpool

Total distance: **22.6 miles** (36.4 km)

1. *0 miles* Start at the square in front of the Town Hall and turn right down Arthur Street to the side of the Town Hall.
2. *0.2 miles* Cross over the main road and carry on until the end of the houses.
3. *0.5 miles* Turn left into New Road at the end of the houses.
4. *0.8 miles* At the crossroads go straight over and go past a small sewerage plant and then farms before climbing up into the hamlet of Hendomen.
5. *1.4 miles* Go straight across the road passing a telephone box on your right and drop down a narrow lane to a level crossing. Cross only if the lights are green and ensure the gates are closed behind you.
6. *1.9 miles* At lane end turn right opposite Rhydwhyman Ford. Follow road around to approach a large white farmhouse standing on a ridge. Follow the road as it turns right at the farmhouse.
7. *3.3 miles* Ignore the right turn just before a massive old workhouse. Carry on over a railway and past a pub and up into the village of Forden.
8. *4.5 miles* Turn left onto B4388 which can get busy at times.
9. *5.4 miles* At the start of the built up area, opposite The Cock Hotel, turn right off the main road. Take care here as the traffic can be fast. Follow the B4388 for about 2 miles downhill to Lower Leighton Farm.
10. *8.3 miles* Turn left at the farm to Welshpool (B4381) and cross the River Severn, picking up NCN route 81 signs.
11. *9.2 miles* As you enter Welshpool turn left at a roundabout and then up over the railway and the by-pass.
12. *9.4 miles* Turn left at the roundabout and follow Severn Street to a bridge over the canal. If you want to visit Welshpool the town centre is straight on.

Welshpool: *Probably founded in the early 1240s and named Welshpool in 1530, Welshpool has grown as market town, the wool trade was the mainstay of the towns economy since medieval times.*

13. *9.6 miles* On the far side of the bridge and by a large NCN Route 81 sign in blue, turn left and pass the museum on your left. Follow the canal and go through the supermarket car park.
14. *9.7 miles* At the end of the car park turn left at the traffic lights following the Route 81 signs. Follow the A458 for ½ mile to a right turn signposted Route 81 and Powis Castle.
15. *10.4 miles* Climb the hill past Powis Castle grounds and follow the beautiful lane for about 3.5 miles ignoring smaller lanes off to left and right. You are on Route 81.

Powis Castle: *A dramatic castle furnished with a wealth of fine paintings and furniture together with a collection of treasures from India in the Clive museum. The gardens are truly superlative with terraces, enormous clipped yew hedges, and a beautiful orangery. Check with the National Trust for opening times and further details.*

16. *14.1 miles* At the end of the lane turn left as per Route 81 signs and follow the B4385 down to Berriew.